



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Proses Sicrhau Ansawdd

Darpariaeth Datblygu Arweinyddiaeth

Mae gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (yr Academi Arweinyddiaeth) rôl o ran sicrhau ansawdd darpariaeth datblygu arweinyddiaeth. Mae'r broses sicrhau ansawdd yn gwirio a yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Arweinyddiaeth yn parhau i gyrraedd y meini prawf llwyddiant a bennir yn y Canllaw Cymeradwyo Darpariaeth Arweinyddiaeth.

Dyma'r broses sy'n sicrhau bod darparwyr yn parhau i gyflwyno darpariaeth o ansawdd sy'n dal i fod yn addas i'r diben ac sy'n parhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau'r maes datblygu arweinyddiaeth yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi hyder bod y ddarpariaeth yn ddarpariaeth o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wrth fynd ati'r un pryd i gryfhau'r berthynas rhwng yr Academi Arweinyddiaeth a'r darparwyr eu hunain.


Bwriad y broses sicrhau ansawdd, sy'n cychwyn gyda phrosesau hunanasesu'r darparwyr eu hunain, yw cynorthwyo darparwyr i adolygu, addasu a gwella eu darpariaeth dros amser.

Amserlen

Disgwylir i'r holl ddarparwyr werthuso pob darpariaeth yn barhaus fel rhan o'u **prosesau sicrhau ansawdd mewnol**. Dylid coladu'r wybodaeth werthuso hon ar ôl i'r rhaglen gael ei rhedeg am y tro cyntaf ar ôl cymeradwyo fel y gellir cyflwyno adroddiad i'r Academi Arweinyddiaeth. Yr adroddiad hwn fydd cam cyntaf y **proses sicrhau ansawdd allanol**.



Model Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cymeradwyo





Prosesau Sicrhau Ansawdd Mewnol

Dylai'r holl ddarparwyr fod â'u gweithdrefnau eu hunain ar gyfer sicrhau ansawdd, fel y nodir yn y canllawiau cymeradwyo. Os yw'r darparwyr yn gweithio mewn partneriaethau neu gynghreiriau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, yna rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth bod y partneriaethau neu'r cynghreiriau hyn yn cael eu llywodraethu mewn modd cryf a bod ganddynt ddull cadarn o reoli risgiau. Dylid rhannu tystiolaeth o'r prosesau mewnol gyda'r Academi Arweinyddiaeth yn ystod y Prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol a nodir isod.

Gall yr adroddiad ansawdd ac effaith y bydd y darparwr yn ei rannu gyda'r Academi Arweinyddiaeth fod ar unrhyw ffurf, ond rhaid iddo gynnwys hunanasesiad o ansawdd ac effaith y ddarpariaeth bresennol, yn cynnwys sut mae'r darparwr wedi ymateb i'r argymhellion yn dilyn y panel cymeradwyo.

Ymhellach, dylai'r adroddiad ansawdd ac effaith nodi a chyflwyno tystiolaeth ynghylch tri o feini prawf cymeradwyo y cred y darparwr eu bod yn arbennig o gryf, ynghyd â thri o feini prawf yn ymwneud â meysydd y gellir eu datblygu ymhellach. Ni ddylai'r adroddiad ansawdd ac effaith fod yn fwy na thair neu bedair ochr A4.

Proses Sicrhau Ansawdd Allanol


Bydd y gwaith Sicrhau Ansawdd allanol yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd gyda chymorth Cymdeithion a Rhanddeiliaid yr Academi Arweinyddiaeth.

Bydd y broses yn cynnwys y canlynol:

- Dylai'r adroddiad Sicrhau Ansawdd (fel y nodir uchod) gael ei rannu gyda'r Academi Arweinyddiaeth gan y darparwr ar ôl cyflwyno cylchrediad llawn o'r ddarpariaeth (dim mwy na phedair ochr A4)
- Sgwrs Sicrhau Ansawdd gyda'r darparwr
- Gweithgareddau samplu e.e. arsylwadau rhaglen, grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr

Bydd adroddiad byr yn cael ei lunio ar ôl i'r broses Sicrhau Ansawdd allanol ddod i ben. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r darparwr. Pan fo arferion effeithiol wedi'u nodi, bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos i ddathlu hyn a bydd yr astudiaeth achos hon yn cael ei rhannu ar y wefan.

MAE'R ACADEMI ARWEINYDDIAETH YN CADW'R HAWL I ATAL A/NEU DDIDDYMU UNRHYW GYMERADWYAETH O GANLYNIAD I'R BROSES SICRHAU ANSAWDD FLYNYDDOL, OS CEIR RHESYMAU DIGONOL.



Fforwm i Ddarparwyr

Hefyd, bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn cynnal Fforwm i Ddarparwyr ar ôl cael lleiafrif o dri darpariaethau sydd wedi'u cymeradwyo ac sydd wedi cael eu cynnal am flwyddyn.

Diben y Fforwm

- Adeiladu perthynas gref rhwng yr Academi Arweinyddiaeth a'r darparwyr
- Rhoi cyfle i ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo rannu arferion effeithiol/o ansawdd gyda'i gilydd
- Deialog broffesiynol gyda darparwyr sydd wedi'u cymeradwyo a'r Academi Arweinyddiaeth ynghylch meithrin cyfleoedd datblygu a chapasiti ar gyfer y dyfodol
- Ysgogi arloesedd, cymhelliant a syniadau creadigol

Bydd y fforwm yn cyfrannu'n barhaus at ddatblygu a chaboli'r broses sicrhau ansawdd.

Model Partneriaeth y Tair Gwlad: Sicrhau Ansawdd

Bydd ansawdd y Broses Gymeradwyo ei hun yn cael ei sicrhau bob blwyddyn gan staff yr Academi Arweinyddiaeth, darparwyr, y grŵp rhanddeiliaid a Chonsortium Arweinyddiaeth y Tair Gwlad trwy Fodel Partneriaeth y Tair Gwlad.

Gweithdrefnau a Phrotocolau

- Cymhelliant i gefnogi a herio mewn modd adeiladol a phwrpasol
- Diben moesol y broses yw gwella'r ddarpariaeth arweinyddiaeth (effeithio ar ddysgwyr)
- Gonest, cadarn, cyson, llawn parch
- Y wlad letyol a fydd yn berchen ar yr holl ganlyniadau
- Caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng gwledydd, mewn diwylliant o ymddiriedaeth a chydatebolrwydd
- Y wlad letyol sy'n berchen ar yr adroddiadau/canlyniadau
- Dylid cadw cyfrinachedd

Sicrhau Ansawdd y Model Partneriaeth

- Templedi y cytunwyd arnynt
- Dylai'r wlad letyol fynd ati i werthuso ar ddiwedd y broses
- Y wlad ategol a ddylai arwain y broses Sicrhau Ansawdd